Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 22 Ionawr 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(107)v4

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**
Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol (30 munud)**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ardaloedd Menter (30 munud)**

**Cynnig i atal Rheol Sefydlog 11.16, 12.20(i) a 27.7 i ganiatáu i'r ddwy eitem nesaf o fusnes gael eu trafod (5 munud)**
**NDM5153 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 11.16, Rheol Sefydlog 12.20(i) a Rheol Sefydlog 27.7 er mwyn caniatáu i NNDM5151 ac NNDM5152 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 22 Ionawr 2013.

**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan bleidleisio arnynt ar wahân.**

**5. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor**

**(Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013 (15 munud)**
**NNDM5151 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Ionawr 2013.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013 – Saesneg yn unig
Memorandwnm Esboniadol – Saesneg yn unig

**6. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2013 (15 munud)**
**NNDM5152 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Ionawr 2013.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2013 – Saesneg yn unig
Memorandwm Esboniadol – Saesneg yn unig

**7. Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren a Darlledu Data Gweithgareddau Pysgota yn Electronig) (Cymru) 2012 (15 munud)**

**NDM5141 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Gynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren a Darlledu Data Gweithgareddau Pysgota yn Electronig) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Rhagfyr 2012.

**Dogfennau Ategol**
Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren a Darlledu Data Gweithgareddau Pysgota yn Electronig) (Cymru) 2012
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – *dim pwyntiau adrodd*

**8. Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) (90 munud)**
Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl ac fe'u trafodir yn ôl y grwpiau a ganlyn:**

**1.Hysbysu am sgoriau hylendid bwyd a'u cyhoeddi**
12, 1, 13, 2, 14, 3

**2.Cyhoeddi sgoriau hylendid bwyd ar ddeunydd hyrwyddo**
9, 21, 22, 10, 23, 11, 25, 5, 8

**3. Y gofyniad i arddangos sticeri sgôr hylendid bwyd lluosog**
4, 7

**4. Troseddau**
24, 26, 27

**5. Dyletswyddau yr Asiantaeth Safonau Bwyd**
15, 16, 17, 18, 19

**6. Y defnydd o dderbyniadau cosb benodedig**
6

**7.Diwygio cyfnodau i gydymffurfio â dyletswyddau**
20

**Dogfennau Ategol**
Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o welliannau wedi'u didoli
Grwpio Gwelliannau

**9. Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru). (5 munud)**

Ar ddiwedd Cyfnod 3, caiff y Gweinidog gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Os cytunir ar y cynnig.

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)

**10. Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn (60 munud)**

**NDM5141 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2011-12, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ionawr 2013.

Gellir gweld yr adroddiad drwy glicio ar y ddolen hon:

http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=242061&ds=1/2013

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agosach gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i ddatblygu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (Cam 3).

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu dulliau clir o fonitro urddas a gofal i bobl hyn o ganlyniad i 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well - Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru'.

Gellir gweld y safonau drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.nhswalesgovernance.com/display/Home.aspx?a=130&s=2&m=0&d=0&p=0

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad 'Llais, Dewis a Rheolaeth' i ddatblygu gwasanaeth eirioli cadarn ac annibynnol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

Gellir gweld yr adroddiad drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.olderpeoplewales.com/wl/news/news/12-09-18/Voice_Choice_and_Control.aspx

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 23 Ionawr 2013

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 8 Ionawr 2013 i'w hateb ar 22 Ionawr 2013**

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

**Gofyn i Brif Weinidog Cymru**

1. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gostyngiad yn nifer y myfyrwyr yng Nghymru sy'n gwneud cais am brifysgolion a'r effaith ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllido myfyrwyr. OAQ(4)0862(FM)W

2. **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ledled Cymru. OAQ(4)0865(FM)

3. **Elin Jones (Ceredigion)**: Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf yng Nghymru. OAQ(4)0857(FM)W

4. **Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei bolisi yng nghyswllt Addysg Uwch Cymru. OAQ(4)0854(FM)

5. **Lynne Neagle (Tor-faen)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn Nhor-faen. OAQ(4)0867(FM)

**6. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i goffáu bywyd a gwaith Alfred Russel Wallace eleni. OAQ(4)0868(FM)

**7. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y manteision economaidd a ddaeth i ranbarth Bae Abertawe oherwydd dyrchafiad Dinas Abertawe i Uwchgynghrair Lloegr. OAQ(4)0855(FM)

**8. Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**: Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyflwyno i wella bywydau trigolion Canol De Cymru. OAQ(4)0860(FM)

**9. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**: A oes gan y Prif Weinidog unrhyw bryderon ynghylch enw da sector Addysg Uwch Cymru. OAQ(4)0859(FM)

**10. Alun Ffred Jones (Arfon)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar fudd-dal y dreth gyngor. OAQ(4)0856(FM)W

**11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i liniaru tlodi yng Nghymru. OAQ(4)0858(FM)

**12. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer twf economaidd yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0863(FM)

**13. Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer iechyd yng ngogledd Cymru. OAQ(4)0866(FM)

**14. Nick Ramsay (Mynwy)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu twf busnesau yng Nghymru. OAQ(4)0861(FM)

**15. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**: Beth yw blaenoriaethau'r Prif Weinidog o ran gweithredu ei gyfrifoldebau strategol dros bolisi ynni yn ystod 2013. OAQ(4)0864(FM)W

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dydd Mawrth 29 Ionawr a dydd Mercher 30 Ionawr 2013

Dydd Mawrth 5 Chwefror a dydd Mercher 6 Chwefror 2013

Toriad: 11 Chwefror a dydd Mercher 17 Chwefror 2013

Dydd Mawrth 19 Chwefror a dydd Mercher 20 Chwefror 2013

*********************************************************************

Dydd Mawrth 29 Ionawr 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (60 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cyflwyno'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen TB mewn Gwartheg (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau: Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad o Gymwysterau 14-19 (30 munud)
- Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Y camau nesaf yn y gwaith o ddiwygio'r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol - Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio - Darpariaethau i'w gwneud yn ofynnol i gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau ddarparu data electronig i gwsmeriaid (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol - Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio - Diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr (15 munud)

- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol - y Bil Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus (15 munud)
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2013 (15 munud)

Dydd Mercher 30 Ionawr 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 12 yn ymwneud â chyflwyno cwestiynau llafar y Cynulliad (5 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

NNDM5147

**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**David Rees (Aberafan)**
**William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod y manteision i Gymru o fod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd.

**Cefnogwyd gan**:
Eluned Parrott (Canol De Cymru)
Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)
Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru)
Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)
Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)
Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)
Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)
Aled Roberts (Gogledd Cymru)
Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru)
Keith Davies (Llanelli)
Elin Jones (Ceredigion)

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Uwch-gynghrair Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Leanne Wood (Canol De Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 5 Chwefror 2013

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (60 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Gwneud gwahaniaeth: Rôl amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd o ran mynd i'r afael â thlodi plant (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol - Bil Twf a Seilwaith - Caniatâd Cynllunio Tybiedig ar gyfer cydsyniadau i gynhyrchu (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol - Bil Twf a Seilwaith - Diwygiadau i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (15 munud)
- Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Sylwadau ac Apelau) Cerbydau a Symudwyd Ymaith (Cymru) 2013 (15 munud)
- Dadl: Ymgyrch Bwyta'n Gall Newid am Oes (60 munud)

Dydd Mercher 6 Chwefror 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr Ymchwiliad i Awdurdodaeth ar Wahân i Gymru (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Losgi Gwastraff (60 munud)
- Dadl yn ceisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ar Ofal Cymunedol (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) (Mark Isherwood) (60 munud)
- Dadl Fer – Nick Ramsay (Sir Fynwy) (30 munud)

Dydd Mawrth 19 Chwefror 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Diwygio TGCh - adolygu'r rhaglen Dysgu Digidol (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Cyflwyno'r Bil Teithio Byw (Cymru) (60 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol – y Bil Ynni (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol – y Bil Mordwyo Morol (Rhif 2) (15 munud)
- Dadl: Setliad yr Heddlu (60 munud)

Dydd Mercher 20 Chwefror 2013

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Ofal preswyl i bobl hŷn yng Nghymru (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid, sef 'Effeithiolrwydd Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru' (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Lynne Neagle (Tor-faen) (30 munud)